



Ein cyf:

At bob Prif Swyddog Cynllunio

8^{fed} Gorffennaf 2014

Annwyl Gydweithiwr,

CL- 04-14 – Eglurhad ar y polisiau cynllunio cenedlaethol sydd mewn grym o ran datblygiadau nwy ac olew anghonfensiynol ar y tir

Mae cloddio am nwy ac olew, boed hynny drwy ddulliau confensiynol neu anghonfensiynol (h.y. holtti hydrolog), yn cael ei ystyried yn ddatblygiad mwynau.

Yng Nghymru mae'r polisiau cynllunio cenedlaethol perthnasol o ran datblygiadau mwynau wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru. Yn rhan un Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ceir canllawiau cyffredinol sy'n berthnasol i bob cais am nwy neu olew anghonfensiynol, boed hynny ar gam archwilio, arfarnu neu gynhyrchu (echdynnu) y datblygiad.

Y camau mewn datblygiadau nwy ac olew anghonfensiynol ar y tir

Archwilio – defnyddio arolygon seismig i ddarparu gwybodaeth am strwythurau daearegol a drilio archwiliadol i gadarnhau a oes cronfeydd olew neu nwy yn bresennol ai peidio.

Arfarnu – asesu rhagolygon yr archwilio drwy ddefnyddio profion ffynhonnau estynedig a drilio ychwanegol i benderfynu a fyddai datblygu'r cronfeydd yn talu'r ffordd yn economaidd.

Datblygu a chynhyrchu – Datblygu seilwaith i'r maes a chynhyrchu hydrocarbonau o'r gronfa nes bydd y cyflenwadau sy'n ddichonadwy yn economaidd wedi cael eu dihysbyddu.

Datgomisiynu, adfer ac ôl-ofal – mae hyn yn cyfeirio at waith i roi'r gorau i ffynhonnau, tynnu strwythurau a godwyd ar yr wyneb ac adfer y safle.

Bydd pob cam yn golygu prosesau, amserlenni, cyfarpar a symudiadau cerbydau ychydig yn wahanol i'w gilydd. Rhaid felly i'r materion hyn gael eu hystyried o'r newydd ar gyfer pob cais cynllunio. Nid yw'n golygu felly, os oedd hi'n briodol rhoi caniatâd cynllunio i archwilio am yr adnodd, y byddai o reidrwydd yn briodol caniatáu cloddio masnachol a hollti hydrolig yn yr un lleoliad. Dylid penderfynu ar bob cais cynllunio ar ei haeddiant ei hun.

Polisi Cynllunio Mwynau Cymru

Mae Rhan Un Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi'r pum egwyddor allweddol y mae rhaid i awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau rheoli ynglŷn â datblygiadau. Yr egwyddorion yw:

- Darparu cyflenwad digonol o fwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas a diogelu adnoddau rhag cael eu sterileiddio
- Amddiffyn ardaloedd o bwysigrwydd i dreftadaeth naturiol neu adeiledig
- Cyfyngu ar effaith amgylcheddol cloddio am fwynau
- Adfer safleoedd i safon uchel a sicrhau ôl-ddefnydd buddiol
- Annog defnydd effeithlon a phriodol o fwynau, ac aildddefnyddio ac ailgylchu defnyddiau addas.

Darparu cyflenwad digonol o fwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas

Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi bod rhaid ystyried y cyfraniad y gallai adnodd ei wneud i ateb y galw rhanbarthol a'r galw drwy'r Deyrnas Unedig. Anaml y bydd polisïau'n dderbyniol os mai dim ond ceisio diwallu'r galw lleol y maent, neu os dynt yn gwrthod gwaith mwynau o bob math mewn ardal.

O ran mwynau ynni, mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi mai cyfyngedig yw'r wybodaeth am yr adnoddau sy'n debygol o fod yn werth eu cloddio'n fasnachol. Dylai awdurdodau cynllunio felly ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael am faint yr adnoddau mwynau ynni.

Gwarchod ardaloedd o bwysigrwydd i dreftadaeth naturiol ac adeiledig rhag datblygiadau mwynau amhriodol

Ni ddylai datblygiadau mwynau gael eu rhoi ar waith mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ond o dan amgylchiadau eithriadol. Mae paragraff 21 o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi pa asesiad fyddai'n ofynnol i ddangos y byddai'r datblygiad yn fuddiol i'r cyhoedd.

Mae paragraffau 23 – 29 o'r Polisi yn darparu canllawiau ynglŷn â chynigion mwynau o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol, neu gynigion sy'n debygol o effeithio ar y safleoedd hynny.

Mae paragraff 30 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr angen i amddiffyn maint ac ansawdd cyflenwadau dŵr wyneb a dŵr daear. Wrth wneud hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r materion cymhleth hyn a, phan fo unrhyw amheuaeth, dylai fabwysiadu'r egwyddor ragofalus wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Ym mharagraff 31 ceir canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn ag adeiladau hanesyddol, tirweddau, parciau a gerddi, ardaloedd cadwraeth, a henebion.

Ym mharagraff 32 ceir canllawiau ynglŷn â thir amaethyddol, cyflenwad dŵr ffermydd, dŵr wyneb, a draeniad caeau. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn dweud mai'r nod, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yw lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar amaethyddiaeth o ganlyniad i ddatblygiadau mwynau.

Cyfyngu ar effaith amgylcheddol cloddio am fwynau

Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi bod rhaid rhoi sylw i'r materion isod i wneud yn siŵr nad yw cynigion mwynau yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd ac ar fwynderau trigolion cyfagos.

- Mynediad a chreu traffig gan gynnwys y llwybrau a ddefnyddir ar gyfer cludo'r mwynau)
- Sŵn (o ran cyfyngiadau, mathau a lleoliadau)
- Rheoli llwch, mwg a mygdarthau
- Cael gwared ar wastraff mwynau
- Rheoliadau ffrwydro (os yn berthnasol i geisiadau siâl a methan gwely glo)
- Draenio tir, effaith ar adnoddau dŵr daear ac atal llygru cyflenwadau dŵr
- Ymyrraeth weledol a thirlunio cyffredinol
- Effaith ar safleoedd cadwraeth natur, hanesyddol a diwylliannol pwysig
- Ansefydlogrwydd tir
- Hyrwyddo defnyddio a thrin tir ansefydlog, diffaith neu lygredig
- Effaith gronnus
- Adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd.

Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi na ddylai'r gyfundrefn gynllunio wrthdaro gyda na cheisio dyblygu mesurau rheoli sy'n cael eu rheoleiddio'n well dan wahanol systemau rhoi caniatâd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Nwy ac Olew Anghonfensiynol i gynhyrchu Map Ffordd Rheoleiddio, sy'n nodi'r holl brosesau y bydd angen i weithredwr eu cyflawni cyn drilio am nwy ac olew anghonfensiynol. Mae modd lawrlwytho'r map ffordd o'r cyfeiriad isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-roadmap-onshore-oil-and-gas-exploration-in-the-uk-regulation-and-best-practice>

O ganlyniad, rheoleiddwyr eraill fydd yn ymdrin â'r materion canlynol:

- Risg seismig – yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am fesurau rheoli i liniaru risg seismig.
- Dylunio ac adeiladu ffynhonnau – yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth yn ymwneud â dylunio ac adeiladu ffynhonnau.
- Gweithrediad y cyfarpar wyneb ar y Llain Ffynnon – Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n rheoli hyn.
- Gwastraff Mwynau – Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwastraff cloddio yn cael ei reoli'n briodol drwy ddarparu trwydded amgylcheddol.
- Cynnwys cemegol hylif ffracio (os yw i gael ei ddefnyddio) – Rhaid i weithredwyr roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am bob cemegyn maen nhw'n bwriadu'i ddefnyddio i hollti'n hydrologig er mwyn cael trwydded amgylcheddol.
- Unrhyw fflagu neu ollwng nwy – mae hyn yn ddarostyngedig i fesurau rheoli'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac yn cael ei reoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Serch hynny, efallai y bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried unrhyw sŵn neu effaith weledol a gâi ei hachosi gan y broses hon.
- Gwaredu dŵr yn derfynol – Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu trwyddedau ar gyfer dŵr llifo'n ôl, a allai gynnwys deunydd ymbelydrol naturiol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys sicrhau bod y trin/gwaredu terfynol ar ddŵr llifo'n ôl drwy gyfleusterau trin dŵr addas yn dderbyniol. Yn dibynnu ar y cam datblygu ac ar y raddfa gynhyrchu, gallai fod cyfeintiau sylweddol o ddŵr y bydd anen eu cludo i'r safle ac oddi yno. Bydd angen felly i awdurdodau cynllunio lleol ystyried mynediad, y traffig a gaiff ei gynhyrchu, ac effaith weledol cyfleusterau storio ar y safle.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Dywed paragraff 38 o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru fod rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried a oes angen asesu effaith amgylcheddol datblygiadau, yn cynnwys datblygiadau a fyddai fel arall yn cael eu caniatáu yn unol â'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Dywed y Map Ffordd Rheoleiddio y bydd ceisiadau am gamau archwilio ac arfarnu datblygiadau nwy anghonfensiynol yn dod o dan Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1999 os ydynt uwchlaw'r trothwy cymwys, neu os oes unrhyw ran o'r datblygiad i gael ei gynnal mewn ardal sensitif. Dim ond os yw'r prosiect yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y mae asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ofynnol. Nodir y meini prawf dethol ar gyfer sgrinio datblygiadau Atodlen 2 yn Atodlen 3 o reoliadau 1999.

Dywed Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ei bod yn annhebygol y bydd angen asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau drilio archwiliadol. Mae Llywodraeth Cymru'n dal o'r farn hon ar y sail nad yw drilio archwiliadol o'r fath yn cynnwys hollti hydrologig, neu nad yw wedi'i leoli ar safle sy'n anarferol o sensitif i aflonyddu cyfyngedig yn digwydd dros y cyfnod byr dan sylw. Lle nad oes angen

Datganiad Amgylcheddol, mae'r Map Ffordd Rheoleiddio yn dweud y gallai fod gofyn serch hynny i weithredwyr gyflwyno adroddiadau technegol yn cynnwys adroddiadau ecoleg, sŵn, ac archaeoleg.

Lle penderfynir bod asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ofynnol, mae'r Map Ffordd Rheoleiddio yn dweud bod rhaid iddo gwmpasu'r ardal ddaearyddol lle mae'r effaith yn digwydd, a hynny uwchlaw'r ddaear ac oddi tani. Felly, mae'r ardal yn debygol o fod yn fwy na dim ond y safle datblygu ar yr wyneb, yn arbennig os bydd drilio llorweddol i gael ei ddefnyddio.

Adfer safleoedd i safon uchel a sicrhau ôl-ddefnydd buddiol

Os nad yw cynlluniau cloddio am fwynau yn darparu adferiad boddhaol ac addas, dywed Polisi Cynllunio Mwynau Cymru y dylid gwrthod caniatâd cynllunio. Dylai amodau cynllunio perthnasol, wedi'u geirio'n iawn, allu sicrhau adferiad, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd safleoedd datblygiadau nwy anghonfensiynol, boed hynny ar y camau archwilio, arfarnu neu gynhyrchu.

I gloi, mae paragraff 64 o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru yn dweud, lle bo modd gwneud gwaith olew a nwy mewn ffordd amgylcheddol dderbyniol, sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, nad oes unrhyw achos o ran cynllunio defnydd tir i roi mwy o gyfyngiadau ar y datblygiad na'r hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod.

Dylai'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru, ynghyd â'r llythyr hwn o eglurhad, gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wrth iddynt benderfynu ar geisiadau am gynigion olew a nwy anghonfensiynol.

Yn gywir,



Carl Sargeant AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration